# B11. Hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

## Crynodeb o'r Uned

### Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb. Y bwriad yw y bydd yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb ac yn symud tuag at sefyllfa lle bydd ymwybyddiaeth yn eich maes o'r angen i sicrhau cydraddoldeb cyfle ac o fanteision amrywiaeth, ac ymrwymiad gweithredol i hyn.

Gallai'r 'maes cyfrifoldeb' fod, er enghraifft, yn gangen neu'n adran, neu'n faes swyddogaethol neu'n safle gweithredu o fewn sefydliad.

### Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr atebol cyntaf a rheolwyr canol.

### Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon a nifer o unedau yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth sy'n ymwneud â rheoli neu weithio gyda phobl.

### Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cyfathrebu
- Arweinyddiaeth
- Cymell
- Monitro
- Rheoli gwybodaeth
- Gwerthuso
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Ymgynghori
- Cydbwyso anghenion a buddiannau sy'n cystadlu
- Dylanwadu a pherswadio
- Cynllunio
- Adrodd
- Gwneud penderfyniadau
- Adolygu
- Rheoli risg

© MSC, Mehefin 2004

# B11. Hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

## Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Sicrhau ymrwymiad ym maes eich cyfrifoldeb i hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth, gan gynnwys gwneud hyn yn faes â blaenoriaeth o ran darparu gwybodaeth ar gyfer gweledigaeth ac amcanion eich maes, a chynllunio a gwneud penderfyniadau.
2. Sicrhau bod eich ymddygiad, eich geirio a'ch gweithredoedd a rhai'r bobl sy'n gweithio ym maes eich cyfrifoldeb, yn cefnogi ymrwymiad i gydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth.
3. Nodi'ch cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau personol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac unrhyw godau ymarfer perthnasol.
4. Nodi amrywiaeth ac anghenion cwsmeriaid cyfredol eich maes a'r cwsmeriaid posibl, a nodi meysydd lle gellir diwallu anghenion yn well a lle gellir gwella amrywiaeth ymhlith y cwsmeriaid.
5. Sicrhau bod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig y sefydliad yn cael ei gyfleu'n eglur i'r holl bobl ym maes eich cyfrifoldeb a'r holl garfanau eraill perthnasol.
6. Rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig y sefydliad ar waith ym maes eich cyfrifoldeb, gan gynnwys rhannau perthnasol unrhyw gynllun gweithredu cysylltiedig ar gyfer y sefydliad cyfan, ceisio adnoddau gofynnol a sicrhau bod yr adnoddau gofynnol ar gael.
7. Sicrhau bod ymgynghori rheolaidd â phobl ym maes eich cyfrifoldeb neu eu cynrychiolwyr ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
8. Ceisio a defnyddio arbenigedd arbenigol mewn perthynas â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.
9. Sicrhau bod trefniadau gweithio, adnoddau a phrosesau busnes ym maes eich cyfrifoldeb yn ymateb i wahanol anghenion, galluoedd, gwerthoedd a dulliau o weithio.
10. Monitro, adolygu ac adrodd i'r bobl berthnasol ar gynnydd o ran cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb, gan nodi gweithredu gofynnol a newidiadau i arferion.

## Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.
2. Byddwch yn deall anghenion, teimladau a chymelliannau unigolion ac yn mynd ati i ymddiddori yn eu pryderon.

© MSC, Mehefin 2004

3. Byddwch yn annog ac yn cefnogi pobl eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.
4. Byddwch yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.
5. Byddwch yn dangos eich bod yn deall gwahanol gwsmeriaid a'u hanghenion yn eglur.
6. Byddwch yn trin unigolion â pharch ac yn gweithredu i sicrhau eu hawliau.
7. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.
8. Byddwch yn gwneud yn siwr bod amser ar gael i gefnogi eraill.
9. Byddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau'r sefydliad a chodau proffesiynol, ac yn sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â'r rhain.

© MSC, Mehefin 2004

## B11. Hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

#### Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Gwahanol ddiffiniadau o amrywiaeth
2. Y gwahanol ffurfiau posibl ar wahaniaethu ac aflonyddu
3. Achos busnes dros sicrhau cydraddoldeb cyfle a hybu amrywiaeth
4. Effeithiau tebygol peidio â hybu cyfle cyfartal ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb
5. Sut y gellir dangos bod ymrwymiad i hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb
6. Pam ei bod yn bwysig gwneud cydraddoldeb ac amrywiaeth yn faes â blaenoriaeth, a sut i wneud hyn yn effeithiol
7. Pam ei bod yn bwysig arwain trwy esiampl o ran eich ymddygiad, eich geirio a'ch gweithredoedd wrth gefnogi ymrwymiad i gydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth
8. Sut i adnabod pan fydd ymddygiad, geirio a gweithredoedd pobl eraill yn cefnogi ymrwymiad i gydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth a phan na fyddant dim yn cefnogi hynny
9. Sut a lle i nodi'ch cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau personol dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb ac unrhyw godau ymarfer perthnasol.
10. Pwysigrwydd nodi amrywiaeth ac anghenion cwsmeriaid cyfredol eich maes, a'r cwsmeriaid posibl, er mwyn nodi meysydd i'w gwella, a sut i wneud hyn yn effeithiol
11. Sut i gyflwyno polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig y sefydliad i'r holl bobl sy'n gweithio ym maes eich cyfrifoldeb a'r holl garfanau eraill perthnasol.
12. Pwysigrwydd rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig y sefydliad ar waith, ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu cynhaliol
13. Y math o adnoddau a allai fod yn ofynnol i gefnogi rhoi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac unrhyw gynllun gweithredu cynhaliol ar waith
14. Sut a phryd i ymgynghori â phobl ym maes eich cyfrifoldeb, neu eu cynrychiolwyr, ar faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth
15. Ffynonellau arbenigedd arbenigol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth
16. Sut i ddarparu trefniadau gweithio, adnoddau a phrosesau busnes ym maes eich cyfrifoldeb sy'n ymateb i wahanol anghenion, galluoedd, gwerthoedd a ffyrdd o weithio
17. Sut i fonitro, adolygu ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â chydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb

© MSC, Mehefin 2004

**Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector**

1. Deddfwriaeth, rheoliadau, canllawiau a chodau ymarfer sy'n benodol i'r sector ac sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth
2. Materion a datblygiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n benodol i'r diwydiant neu'r sector
3. Ffynonellau gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y diwydiant neu'r sector

**Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun**

1. Gweledigaeth, amcanion a chynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb
2. Y prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau ym maes eich cyfrifoldeb
3. Gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion, cynlluniau a diwylliant cyffredinol y sefydliad
4. Amrywiaeth y bobl sy'n gweithio ym maes eich cyfrifoldeb
5. Cwsmeriaid cyfredol eich maes, y cwsmeriaid posibl a'u hanghenion
6. Carfanau eraill perthnasol sydd â diddordeb mewn amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb
7. Polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ysgrifenedig y sefydliad ac unrhyw gynllun gweithredu cysylltiedig a sut mae'r rhain yn cael eu cyfleu i bobl sy'n gweithio i'r sefydliad, pobl yn eich maes a charfanau eraill perthnasol
8. Ffynonellau arbenigedd arbenigol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth a ddefnyddir ym maes eich cyfrifoldeb
9. Y gefnogaeth a'r adnoddau a ddyrannwyd i faes eich cyfrifoldeb ac ar draws y maes hwnnw i hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth
10. Polisïau ac arferion cyflogaeth o fewn y sefydliad – gan gynnwys recriwtio, dethol, ymsefydlu, datblygu, dyrchafu, cadw staff, colli swyddi, diswyddiadau, cyflogau a thelerau ac amodau eraill
11. Trefniadau gweithio, adnoddau a phrosesau busnes ym maes eich cyfrifoldeb
12. Y systemau sydd ar waith ym maes eich cyfrifoldeb ar gyfer monitro, adolygu ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â chydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth
13. Cyfrifoldebau a ddyrannwyd ar gyfer hybu cydraddoldeb cyfle ac amrywiaeth ym maes eich cyfrifoldeb a'r sefydliad yn gyffredinol

© MSC, Mehefin 2004